



Cyflog: Rhagwelir y bydd oddeutu £30,000 - £35,000 (*pro rata*) yn gymesur â phrofiad

Oriau: 22.5 awr yr wythnos fe fydd oriau gwaith yn hyblyg yn ystod yr wythnos gan gynnwys gweithio dros y penwythnos yn rheolaidd.

Lleoliad: Ystâd Elan, Pentref Elan, Rhaeadr, Powys, LD6 5HP

Trosolwg o'r Swydd: Mae Ymddiriedolaeth Cwm Elan (adwaenir yn swyddogol fel Ymddiriedolaeth Dŵr Cymru Elan, rhif Elusen 1001347) yn awyddus i benodi Gweithiwr Fferm gyda chyfrifoldebau ar draws yr Ystâd.

Mae'n rôl rannedig gyda dyletswyddau yn benodol yn ymwneud â gwaith fferm yn ogystal â thasgiau yn ymwneud â gwaith cyffredinol ar draws yr Ystâd.

Fe fydd tasgiau fferm yn cynnwys:

- Rheoli da byw o ddydd i ddydd yn un o'n daliadau ar y bryniau (defaid a gwartheg)
- Dyletswyddau cyffredinol gyda'r gwartheg ar draws nifer o ddaliadau
- Cynorwytho gyda chasglu ar ddaliadau cyfagos fel bo'r angen yn unol ag ymarferion ar y bryniau
- Arbrofi gyda dulliau newydd er mwyn hybu cadwraeth natur a bioamrywiaeth o fewn y fferm
- Ffensio
- Gwaith llif gadwyn

Fe all dyletswyddau Ystâd cynnwys:

- Cynnal a chadw'r llwybrau a'r meysydd parcio
- Peintio
- Dyletswyddau gofalwr

Fe fydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus fod yn dda mewn tîm, yn gyfathrebwr ardderchog, gydag agwedd 'yn gallu gwneud', yn dangos sgiliau rhyngbersonol da ynghyd â'r ysfa i ffermio mewn ardal ucheldirol er budd natur.

Cyd-destun y Swydd: Mae Ymddiriedolaeth Dŵr Cymru Elan (Ymddiriedolaeth Cwm Elan) yn elusen gofrestredig a sefydlwyd gan Dŵr Cymru Welsh Water ym mis Hydref 1989. Gyda'r nod o reoli'r rhan fwyaf o 50,000 erw Ystâd Elan yng Nghanolbarth Cymru, trwy rinwedd prydles 999 o flynyddoedd ar rent hedyn pupur.

Cwm Elan Cyfyngedig yw unig ymddiriedolwr corfforaethol yr elusen. Y Bwrdd Cyfarwyddwyr sy'n gwneud penderfyniadau ar ran yr elusen. Mae wyth Cyfarwyddwr ar hyn o bryd.

Bwriad yr Elusen yw i gynnwys cadwraeth a natur, mynediad i'r cyhoedd a hamdden, addysg ynghyd â bwriadau elusennol eraill.

Mae'r Ystâd wedi'i lleoli yng nghanol Mynyddoedd y Cambria i'r gorllewin o dref farchnad Rhaeadr. Mae'n ffurfio tiroedd casglu yr ucheldiroedd o gwmpas Cronfeydd dyffrynnoedd Elan a Chlaerwen sy'n darparu dŵr yn bennaf i Orllewin Canolbarth Lloegr, ond hefyd i rannau o Ganolbarth a De Cymru.

Dyddiad Cau: Dydd Llun 26ain Hydref 2026

Disgrifiad Swydd

Teitl y Swydd:	Gweithiwr Fferm
Yn atebol i:	Rheolwr yr Ystâd
Cytundeb:	22.5 awr yr wythnos Cytundeb Parhaol

Noder: Mae'r rhain yn ddisgrifiadau eang o'r mathau o ddyletswyddau/gweithgareddau a ddisgwylir ar y lefel hon, ar gyfer dibenion darluniadol. Ni fwriedir iddynt fod yn restr gynhwysfawr o ddyletswyddau.

Prif Ddyletswyddau:

Fel aelod o dîm ffermio ac ystâd yr Ymddiriedolaeth, fe fydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cyfrannu at swyddogaethau dyddiol yr ystâd ynghyd â menter ffermio mewn llaw. Fe fydd angen lefel uchel o weithio unig, ac fe fydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus ddangos ei gallu/ei allu i gynllunio baich gwaith gan barhau i aros yn ysgogedig.

Bydd y brif feysydd yn cynnwys ymgymryd â'r da byw yn un o'n daliadau a gwaith cynnal a chadw ar draws yr ystâd.

Tasgiau Nodweddiadol a Chyfrifoldebau Cyffredinol

1.1 Ffermio

- 1.1.1 Cyfrannu tuag at y ffermio a rheoli o leiaf un o'r daliadau mewn llaw gan gynnwys trin defaid a gwartheg.
- 1.1.2 Casglu'r data angenrheidiol ar gyfer cofnodion y ffermydd i gyd gan gynnwys y defnydd o feddyginiaethau, a dyddiaduron gweithgareddau.
- 1.1.3 Chwarae eich rhan yn y tîm ffermio er mwyn cyrraedd nodau a graddfeydd amser ar gyfer yr holl ffermydd mewn llaw, a gweithgareddau gan gynnwys casglu defaid a thasgiau gwartheg.
- 1.1.4 Ymgymryd â rheoli cynefin gan gynnwys gwaith ar y tractor ac/neu ar y beic cwad fel bo'r angen.
- 1.1.5 Cludo da byw i ac oddi ar y daliadau, marchnad a thac gaeaf.
- 1.1.6 Ymgymryd â ffensio gosod rhai newydd ac adnewyddu.
- 1.1.7 Gwaith cloddio.
- 1.1.8 Gallu i gwblhau gwaith llif gadwyn dan amryw o amodau.
- 1.1.9 Gwaith tractor gan gynnwys topio, cynaeafu a symud porthiant.

1.2 Cadw a Chynnal ar yr Ystâd

- 1.2.1 Cynnal a chadw'r llwybrau a'r meysydd parcio gan gynnwys defnyddio peiriant torri clawdd a gwial.
- 1.2.2 Peintio ffensys ac arwyddion.
- 1.2.3 Gwaith gofalu o gwmpas Byncws yr Ystâd.

Nid yw'r restr hon yn gynhwysfawr a gellir addasu'r pynciau i brofiad ac arbenigedd yr ymgeisydd.

Y PERSON

Teitl y Swydd: Gweithiwr Fferm

Mae'r manylbau isod yn dynodi i fod yn hanfodol neu ddymunol ar gyfer y swydd hon:

Cymwysterau	Hanfodol	Dymunol
Trwydded yrru lawn, yn lân os yn bosib, gyda mynediad at gerbyd	X	
Tystysgrifau mewn hwsmonaeth da byw, rheolaeth ffermio a phori		X
Hyfforddiant, cymwysterau a thystysgrifau perthnasol ar gyfer defnyddio peiriannau perthnasol		X
Sgiliau, Gwybodaeth a Phrofiad		
Gwybodaeth sylfaenol da o bob agwedd o hwsmonaeth defaid	X	
Profiad o weithio a thrin defaid, os yn bosib mewn amgylchedd ucheldirol	X	
Gwybodaeth sylfaenol dda ar bob agwedd o hwsmonaeth gwartheg	X	
Profiad o weithio gyda gwartheg	X	
Gwybodaeth a phrofiad o anghenion hanfodol cadw cofnodion da byw	X	
Deallusrwydd da o reolaeth tir amaethyddol a chadwraeth	X	
Gwybodaeth ecolegol perthnasol yn ymwneud â phori fel arf rheolaeth		X
Hyfedr a chymwys mewn amryw o dasgiau rheoli tir sy'n berthnasol i'r weithrediad pori		X
Profiad o ddefnyddio offer megis peiriant torri clawdd, peiriant torri gwiall a llif gadwyn	X	
Profiad o ffensio	X	
Gwybodaeth a phrofiad o osod cloddiau		X
Perchnogaeth a defnydd o gŵn defaid	X	
Profiad o yrru tractor ar gyfer topio a chynaeafu	X	
Rhinweddau Personol		
Y gallu i weithio'n effeithiol gyda phobl o amrywiaeth eang o ddisgyblaethau	X	
Y gallu i gydweithio fel rhan o dîm	X	
Y gallu i weithio'n effeithiol o dan bwysau	X	
Hunan ysgogiad	X	
Yr Iaith Gymraeg Lefel A1 neu uwch: Y gallu i gyflwyno'ch hun ac eraill, y gallu i ofyn ac ateb cwestiynau am wybodaeth sylfaenol e.e. ble mae rhywun yn byw a gweithio, hoff bethau, trafod manylion personol, amser a rhifau neu'r parodrwydd i gyrraedd y lefel hwn o fewn 24 mis o'r penodiad		X

Rhaid i'ch cais fod ar ffurf Curriculum Vitae a llythyr atodol, a rhaid cyrraedd Rheolwr yr Ystâd trwy e-bost neu'r trwy'r post erbyn **12yp ar ddydd Llun y 26ed o Hydref 2024**. Rhowch at sylw: Jonathan Davies, Rheolwr Busnes ac e-bost at recruitment@elanvalley.org.uk neu bostiwch at Swyddfa Ystâd Elan, Pentref Elan, Rhaeadr, Powys, LD6 5HP;
Cofiwch gynnwys enwau, cyfeiriadau (gan gynnwys cyfeiriadau e-bost, os ar gael) o 2 ganolwr y gallwn gysylltu â nhw.
Atodwch eich enw llawn, rhif ffôn a chyfeiriad post/cyfeiriad electroneg fel y gallwn gadarnhau derbyn eich cais.